Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant
Childrens' Commissioning Consortium Cymru
Cydweithio Er Gwell • All Together Better

Comisiynydd Ifanc – Mynegwch Farn – Be Heard – Young Commissioners

# Adroddiad ar yr Ymgynghoriad â'r Comisiynwyr Ifanc
# 'Beth sy'n gwneud Cartref Plant da?'
## Hanner Tymor mis Hydref 2023

**Digwyddiad Gogledd Cymru 30 Hydref 2023: Wrecsam**
**Digwyddiad De Cymru 2 Tachwedd 2023: Caerdydd**

## Pwy yw'r Comisiynwyr Ifanc?

Grŵp o ryw 60 o aelodau yw Comisiynwyr Ifanc Consortiwm Comisiynu Plant Cymru ac mae'n cynnwys plant rhwng 6 a 19 oed sy'n byw gyda theulu maeth neu mewn cartref plant yng Nghymru.

Gofynnodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i'n Comisiynwyr Ifanc ei helpu i ddatblygu canllawiau a fyddai'n rhoi cyngor i sefydliadau sy'n awyddus i agor Cartref Plant yng Nghymru ynghylch beth sydd angen iddynt ei ystyried er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cartrefi o ansawdd ardderchog i blant a phobl ifanc, sy'n lleoedd gwych iddynt fyw.

Fel rhan o'r gweithdy, cafwyd trafodaethau ar sut ddylai'r cartref a'r ardd edrych, maint a nifer y plant a'r bobl ifanc a ddylai fyw gyda'i gilydd, a beth ddylai fod ar gael yn yr ardal a'r gymuned gyfagos.

Rhannodd y Comisiynwyr Ifanc eu safbwyntiau a'u profiadau personol os oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny. Cymerodd pawb ran lawn gan ymrwymo i rannu eu syniadau gorau ar y prosiect pwysig hwn.

Aeth cyfanswm o 44 o Gomisiynwyr Ifanc rhwng 5 ac 16 oed i'r sesiynau. Roedd 24 o'r plant hynny yn byw mewn cartref plant ar y pryd ac roedd 20 yn byw gyda gofalwyr maeth ar y pryd. Cafodd y Comisiynwyr Ifanc amser wrth eu bodd yn chwarae Brwydrau Nerf! ar ôl yr ymgynghoriad.

## Dyma beth wnaethon nhw!

Cafodd cyfres o dempledi ac adnoddau addas i blant eu dylunio ymlaen llaw i'w defnyddio fel canllaw i'r hwyluswyr yn ystod y gweithdy. Roedd amrywiaeth o gymhorthion ar gael yn y gweithdy gan gynnwys peniau lliw, nodiadau 'post it' a chlai modelu er mwyn galluogi pob plentyn neu berson ifanc i gyfrannu fel roedd yn dymuno.




Roedd ystod oedran y Comisiynwyr Ifanc yn eang a gwnaethant weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach er mwyn cynnal sgyrsiau â ffocws a oedd yn briodol i oedran y plant.

Dim ond sgiliau cyfathrebu dieiriau oedd gan un o'r Comisiynwyr Ifanc, ac felly defnyddiodd

rhai o'r gofalwyr Makaton i gyfathrebu ag ef fel y gallai gymryd rhan yn llawn a rhannu ei farn yn y sesiwn.

Gofynnodd Arolygiaeth Gofal Cymru i'r Comisiynwyr Ifanc feddwl am y meysydd isod:

- Beth sy'n gwneud i dŷ deimlo fel cartref.
- Beth yw maint cartref da a faint o blant ddylai fyw gyda'i gilydd.
- Sut ddylai cartref da edrych ar y tu mewn, gan gynnwys eu barn ar yr ystafelloedd unigol a'r ardaloedd a rennir.
- Sut ddylai cartref da edrych ar y tu allan, gan gynnwys y gerddi a'r ardaloedd awyr agored.
- Ble dylid lleoli cartref da a beth ddylai fod ar gael yn y gymuned gyfagos.

Nodir safbwyntiau ac argymhellion ein Comisiynwyr Ifanc yn yr adroddiad hwn.

## Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar beth sy'n gwneud i dŷ deimlo fel cartref.




Mae'r map geiriau hwn yn dangos y geiriau a'r ymadroddion allweddol a ddaeth i'r amlwg wrth i'n Comisiynwyr Ifanc drafod beth sy'n gwneud i dŷ deimlo fel cartref, yn eu barn nhw.

Pan ofynnwyd iddynt beth sy'n gwneud tŷ yn gartref, dywedodd y Comisiynwyr Ifanc wrthym y gall amrywiaeth o bethau wneud i blant a phobl ifanc deimlo'n gartrefol.

Mae **bwyd** da yn bwysig iawn iddynt, gwnaethant siarad am gael ‘digon o fwyd a dewis o fwyd’. Wrth rannu eu profiadau blaenorol, gwnaethant siarad am gyrraedd cartref newydd a chael eu croesawu â'u hoff bryd bwyd. Roedd hyn wedi gwneud iddynt deimlo'n gartrefol ac roeddent yn teimlo ei bod yn beth da bod y gofalwyr wedi cael gwybod beth roeddent yn hoffi ei fwyta er mwyn rhoi croeso iddynt a gwneud iddynt deimlo'n bwysig. Gwnaethant hefyd ddweud bod bwyd yn rhoi cysur iddynt ac yn gwneud iddynt deimlo'n hapus ac yn ddiogel.

Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant
Childrens' Commissioning Consortium Cymru
Cydweithio Er Gwell • All Together Better

Comisiynydd Ifanc
Young Commissioners
Mynegwch Farn
Be Heard

Dywedodd ein Comisiynwyr Ifanc wrthym mai '**pobl** sy'n gwneud cartref'. Mae'r bobl sy'n gofalu amdanynt yn hollbwysig wrth wneud i'r plant a'r bobl ifanc deimlo'n hapus yn eu cartref. Mae meithrin cydberthnasau cadarnhaol â gofalwyr yn hanfodol.

> ***"Pobl llawn cydymdeimlad, a fydd yn gwrando ar ein stori"***
> ***"Pobl ddymunol sy'n gwneud cartref da"***
> ***"Dydw i ddim am fyw gyda phobl sy'n gweiddi neu fe fydda' i'n gweiddi'n ôl"***
> ***"Rwy'n rhedeg i ffwrdd gan nad ydw i'n hoffi'r staff"***

Maent yn dweud bod angen iddynt gael eu trin yn garedig ac yn deg a bod angen i bobl wrando arnynt.

Wrth siarad am **anifeiliaid anwes** a'r cartref, mae'r mwyafrif o'n Comisiynwyr Ifanc o bob oed wrth eu bodd ag anifeiliaid ac yn eu barn nhw, mae'n bwysig bod gan gartref da ryw fath o anifail anwes, yn enwedig cŵn neu gathod. Nid oedd un Comisiynydd Ifanc am gael anifail anwes am ei fod yn poeni am lendid, ond credai y byddai parot neu fadfall yn dderbyniol yn y cartref. Roedd gofalu am yr anifail anwes, gan gynnwys chwarae ag ef, cadw'r anifail yn iach ac yn lân, a'i fwydo a'i garu yn bwysig.

> ***"Mae anifeiliaid anwes yn bwysig"***
> ***"Dydw i ddim am gael anifeiliaid anwes, ond efallai y byddai'n iawn cael parot neu fadfall, rhywbeth sy'n eithaf glân"***
> ***"Mae'n rhaid i'r tŷ fod yn lân"***

Mae'r Comisiynwyr Ifanc yn glir y dylai cartref da fod yn **lân**, yn **gynnes** ac yn **glyd**.

## Safbwyntiau'r Comisiynwyr ar faint cartref da a phwy ddylai fyw yno.

Dywedodd pob un o'n Comisiynwyr Ifanc eu bod yn meddwl y dylai cartref plant fod fel **cartref teuluol 'cyffredin'**. Maent yn credu'n gryf mai cartrefi llai o faint sydd orau i blant a phobl ifanc am eu bod yn fwy cartrefol a chyffredin. Rhoddwyd pwyslais cadarn ar sicrhau nad yw'r cartrefi yn edrych yn amlwg fel cartrefi plant, a all arwain at stigma ynghylch derbyn gofal.

Yn eu barn nhw, gall cartrefi mwy o faint fod yn rhy swnllyd a phrysur a gallent wneud i rai plant deimlo'n ofidus ac yn anhapus. Gwnaethant ddweud wrthym fod cartrefi llai

> ***"Tŷ braf o faint cyffredin, mae pedwar o bobl yn ddigon"***

o faint yn galluogi'r rhai sy'n byw ynddynt i gael cydberthnasau gwell â'i gilydd a bod llai o debygolrwydd y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu 'gadael allan'.

Maent hefyd o'r farn y dylai plant a phobl ifanc fyw gydag eraill o oedran tebyg sydd â diddordebau y gallant eu rhannu â'i gilydd ond gwnaethant gydnabod bod teuluoedd cyffredin yn cynnwys plant o wahanol oedrannau ac y gall hynny weithio hefyd. Un thema gadarnhaol oedd diddordebau cyffredin a gwneud gweithgareddau gyda'i gilydd.

Rhannodd rhai o'n Comisiynwyr Ifanc eu profiadau unigol o fyw mewn cartref **solo** lle mai nhw oedd yr unig berson ifanc a oedd yn byw yno gyda'u gofalwyr. Gwnaethant ddweud wrthym nad dyma'r math gorau o gartref i berson ifanc fyw ynddo. Gwnaethant sôn am deimlo'n unig, methu â meithrin cydberthnasau cadarnhaol parhaol a methu â dysgu sut i barchu a rhannu eu lle a'u teimladau ag eraill.

## Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar sut ddylai cartref da edrych ar y tu mewn, gan gynnwys ystafelloedd ac ardaloedd a rennir.

> ***"Swyddfeydd bach, dim ond cwpwrdd o dan y grisiau sydd ei angen, llai o le i bobl".***

Wrth rannu eu barn ar sut ddylai cartref da edrych ar y tu mewn, un o'r prif bwyntiau a godwyd yn eu sgyrsiau oedd mannau i'r staff, yn enwedig **swyddfeydd** ffurfiol. Yn gyffredinol, nid ydynt yn teimlo bod swyddfeydd ffurfiol mawr yn adlewyrchu cartref teuluol. Gwnaethant ddweud nad oedd hawl gan rai ohonynt fynd i mewn i'r mannau hyn i staff yn eu cartrefi. Dywed ein Comisiynwyr Ifanc wrthym fod gofalwyr yn tueddu i ymgasglu yn y swyddfeydd yn hytrach na threulio amser gyda nhw yn y mannau cymunedol, yn gwylio'r teledu, yn sgwrsio ac ati.

Maent yn cydnabod bod angen lle i gadw gwybodaeth breifat a phersonol yn ddiogel ond maent yn nodi nad oes angen i'r wybodaeth hon fod ar gael ar ffurf papur os caiff technoleg ei defnyddio'n effeithiol ac nid ydynt yn teimlo bod angen swyddfa fawr â chypyrddau wedi'u cloi, er enghraifft. Mae mannau gweithio yn y cartref yn bwysig ond gallant fod yn fannau cymunedol a mwy cynhwysol, sy'n gweddu i gartref teuluol.

Wrth ystyried ardaloedd cymunedol eraill, mae ein Comisiynwyr Ifanc yn teimlo y dylai'r ardaloedd hyn fod yn ddigon mawr i alluogi pawb sy'n byw yn y cartref i ymgynnull ynddynt. Wrth drafod **ystafelloedd byw**, maent yn dweud y dylid cael 'cwtch' cyfforddus llai o faint, yn ychwanegol at y brif ardal fyw, lle gallant dreulio amser os byddant yn teimlo'n bryderus, wedi'u llethu neu os bydd angen amser arnynt ar eu pen eu hunain. Roedd clyd a chynnes yn eiriau allweddol.

Mae **ystafelloedd ymolchi** a'r angen am breifatrwydd i ddefnyddio'r ystafelloedd hyn yn bwysig i'n Comisiynwyr Ifanc. Mae cadw ystafelloedd ymolchi a rennir yn lân ac yn gyfforddus yn bwysig. Gwnaethant ddweud bod angen lle personol ar rai pobl ifanc sydd ag anghenion meddygol a gwnaethant ddweud hefyd y gallai rhai deimlo cywilydd os byddant yn sâl ac mai dim ond un ystafell ymolchi sydd yn y cartref. Roedd ein Comisiynwyr Ifanc hŷn yn teimlo mai ystafell en-suite fyddai'r opsiwn gorau iddynt ond roeddent yn gwybod y byddai angen iddynt ei glanhau eu hunain😊. Rhannodd un Comisiynydd Ifanc ei brofiad o fyw mewn tŷ teras llai o faint lle mai dim ond un toiled oedd ar gael i'r holl staff a'r bobl ifanc a oedd yn byw yno. Nid oedd yn argymell hyn.

Wrth drafod eu **hystafelloedd gwely**, mae'n glir bod eu hystafelloedd gwely yn fannau personol a phreifat iawn. Roedd yn gadarnhaol nodi bod pob un o'n Comisiynwyr Ifanc wedi helpu i addurno a dodrefnu eu hystafelloedd gwely a gwnaethant ddweud eu bod yn glyd, yn ddiddos ac yn gyfforddus. Dylai eitemau o ddodrefn gael eu personoli a dylai'r ystafelloedd gwely edrych a theimlo fel pe baent yn bersonol i'r unigolyn sy'n cysgu yn yr ystafell honno. Ni ddylai pob ystafell edrych yr un peth. Mae'r mannau hyn yn bwysig iawn i'w llesiant mewn cartref.

Clywyd barn gymysg wrth drafod **cegin** ac **ardal fwyta** dda ac mae ein Comisiynwyr Ifanc o'r farn y dylai'r cynllun ddibynnu ar faint y tŷ a'r plant a'r bobl ifanc sy'n byw yno. Maent yn cydnabod bod cegin yn lle da i bawb ddod ynghyd a helpu i goginio a bod bwrdd mawr i eistedd o'i amgylch yn bwysig er mwyn creu awyrgylch teuluol. Mae'n well gan rai o'n Comisiynwyr Ifanc gael ystafell fwyta ar wahân oherwydd gall yr ystafell gael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau bwrdd eraill, fel gwaith cartref a chwarae gemau.

## Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar sut ddylai cartref da edrych ar y tu allan, gan gynnwys y gerddi a'r ardaloedd awyr agored.

Mae **gardd** dda yn bwysig i'n Comisiynwyr Ifanc gan fod llawer ohonynt yn hoffi bod yn yr awyr agored ac, weithiau hyd yn oed, y mae'n well ganddynt fod yn yr awyr agored (pan nad yw'n bwrw glaw!). Maent yn siarad am gael ardal sy'n ddigon mawr i chwarae gemau neu ymarfer chwaraeon fel pêl-droed. Maent hefyd yn siarad am bwysigrwydd gallu treulio amser yno pan fo angen llonydd arnynt, amser i feddwl neu fyfyrio, ac amser i ffwrdd oddi wrth eraill.

Fel y nodwyd eisoes, mae ein Comisiynwyr Ifanc yn glir iawn ei bod yn hollbwysig eu bod am fyw mewn tŷ sy'n edrych fel **'cartref teuluol cyffredin'**, ac na ddylai cartref plant edrych yn wahanol i gartref teuluol unrhyw blentyn arall. Maent yn dweud na ddylai fod unrhyw arwyddion (corfforaethol) i ddangos mai cartref plant yw eu cartref, a gwnaethant siarad am y stigma a all ddod yn sgil hyn. Teimlai un person ifanc fod ei

gartref yn edrych fel 'bloc o fflatiau' o'r tu allan ac na ddylai fod rheiliau uchel o'i amgylch. Er mwyn bod yn gartref da, maent yn teimlo bod yn rhaid i dŷ edrych fel cartref, nid fel 'swyddfa', nid fel 'blociau' ac nid fel busnes. Dylai edrych fel y cartrefi eraill yn yr ardal. Dylai cartref edrych a theimlo yn groesawgar ac yn gynnes a dylai fod mewn cyflwr da.

## Ble mae ein Comisiynwyr Ifanc yn teimlo y dylid lleoli Cartrefi Plant.

> ***"Lleoedd diogel, dim Manceinion, dim Lerpwl, osgoi dinasoedd mawr, rhaid bod y cyfraddau troseddu yn isel"***

Ystyriaeth bwysig arall i'n Comisiynwyr Ifanc wrth feddwl am gartref da yw ble maent yn byw a'r **bobl sy'n byw o'u cwmpas**.

Maent am fyw o gwmpas **'pobl garedig a chyfeillgar' 'heb gymdogion cecrus'.**

Cafwyd trafodaeth fanwl am deimlo'n **ddiogel** ac osgoi ardaloedd â lefelau **troseddu** uchel. Roedd rhai o'n Comisiynwyr Ifanc wedi byw mewn ardaloedd lle roedd **cyffuriau, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol** ac roeddent am bwysleisio **'na ddylai fod cyffuriau o gwmpas plant'**.

Maent yn teimlo y dylai fod cydbwysedd rhwng lleoliadau dinesig a gwledig. Roedd y rhai a oedd wedi byw mewn dinasoedd mawr yn poeni am fod yn ddiogel rhag troseddau a throseddwyr. Soniodd y rhai sy'n byw neu a oedd wedi byw mewn ardaloedd gwledig am 'ffermwyr dig' a theimlo'n 'ynysig'. Yn y ddau achos, maent yn siarad am 'sŵn' ac mae'n amlwg eu bod am fyw mewn amgylchedd tawel a digynnwrf er mwyn cefnogi eu llesiant.

Dywedodd llawer o'n Comisiynwyr Ifanc eu bod am aros yn agos i'r ardal roeddent yn byw ynddi cyn dechrau derbyn gofal. Dywedodd y rheini a oedd wedi gallu aros yn agos i adref fod bod mewn man cyfarwydd yn agos i'w teulu, eu ffrindiau a'u hysgol wedi helpu i wneud iddynt deimlo'n 'ddiogel'. Mae bod yn bell oddi wrth eu **hysgolion** a gorfod teithio am amser hir gyda gofalwyr i fynd i'r ysgol yn peri pryder iddynt, ac yn golygu ei bod yn anodd iddynt dreulio amser gyda'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol neu wneud ffrindiau newydd.

Mae **cysylltiadau trafnidiaeth da** sy'n helpu gyda'u hannibyniaeth a'u hamser hamdden yn ystyriaeth bwysig i'n Comisiynwyr Ifanc hŷn. Er enghraifft, mae'n bwysig bod yn agos i gysylltiadau bws a thrên sy'n eu helpu i allu cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Ni all pob un ohonynt wneud hyn yn eu cartrefi presennol, am eu bod yn byw mewn mannau gwledig ac nad oes ganddynt fynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus.

## Crynodeb o sut ddylai cartref da edrych yn ôl ein Comisiynwyr Ifanc:

- Dywedodd pob un o'n Comisiynwyr Ifanc a oedd yn byw mewn cartref plant wrthym y dylai cartref da edrych fel **cartref teuluol cyffredin** ac, yn ddelfrydol, na ddylai mwy na dau neu dri phlentyn fyw gyda'i gilydd. Yn eu barn nhw, **cartrefi llai o faint** sydd orau i blant a phobl ifanc a gall cartrefi mwy o faint fod yn rhy swnllyd a phrysur a gallent wneud i rai plant deimlo'n ofidus ac yn anhapus.
- Roedd ein Comisiynwyr Ifanc, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o fyw mewn cartref solo, o'r farn na ddylai plant a phobl ifanc fyw ar eu pen eu hunain gyda'u gofalwyr. Maent yn teimlo y gall byw mewn **cartref solo** wneud i blant a phobl ifanc **deimlo'n unig**, eu hatal rhag gallu meithrin cydberthnasau a rhag gallu dysgu sut i barchu a rhannu eu lle a'u teimladau ag eraill.
- Dywedodd ein Comisiynwyr Ifanc wrthym fod y **gofalwyr** sy'n gofalu amdanynt yn hollbwysig er mwyn helpu'r plant a'r bobl ifanc i deimlo'n hapus yn eu cartref. Maent am feithrin cydberthnasau ac maent yn dweud bod angen iddynt gael eu trin yn garedig ac yn deg a bod angen i bobl wrando arnynt.
- Mae **bwyd** a choginio yn elfen bwysig o gartref da. Siaradodd rhai o'n Comisiynwyr Ifanc am symud i gartref newydd a chael eu croesawu gan eu hoff bryd bwyd. Roedd hyn wedi eu helpu i ymgynefino ac roedd wedi 'golygu llawer' iddynt fod y gofalwyr wedi cael gwybod beth roeddent yn hoffi ei fwyta ac wedi'i goginio iddynt.
- 

- Wrth siarad am **anifeiliaid anwes** yn y cartref, mae'r mwyafrif o'n Comisiynwyr Ifanc o bob oed wrth eu bodd ag anifeiliaid ac yn eu barn nhw, mae'n bwysig bod gan gartref da ryw fath o anifail anwes.
- Wrth rannu barn ar sut ddylai cartref da edrych ar y tu mewn, dywed ein Comisiynwyr Ifanc wrthym nad yw **swyddfeydd** mawr ffurfiol yn adlewyrchu cartref teuluol ac y byddai'n well ganddynt pe bai eu gofalwyr yn treulio amser gyda nhw yn hytrach nag yn eu swyddfeydd. Wrth drafod **ystafelloedd byw**, maent yn dweud y dylid cael 'cwtch' cyfforddus llai o faint, yn ychwanegol at y brif ardal, lle gallant dreulio amser os byddant yn teimlo'n bryderus, wedi'u llethu neu os bydd angen amser arnynt ar eu pen eu hunain. Roedd **ystafelloedd ymolchi** a'r angen am breifatrwydd wrth ddefnyddio'r ystafelloedd hyn yn bwysig i'n Comisiynwyr Ifanc. Mae **ystafelloedd gwely** ein Comisiynwyr Ifanc yn fannau preifat a phersonol iawn, ac maent yn dweud bod angen iddynt fod yn glyd, yn ddiddos ac yn gyfforddus. Roedd pob un o'n Comisiynwyr Ifanc wedi helpu i addurno a dodrefnu eu hystafelloedd gwely.
- Clywyd barn gymysg wrth drafod **cegin** ac **ardal fwyta** dda ac mae ein Comisiynwyr Ifanc o'r farn y byddai'r cynllun yn dibynnu ar faint y tŷ a'r plant a'r bobl ifanc sy'n byw yno. Maent yn cydnabod bod cegin yn lle da i bawb ddod

ynghyd a helpu i goginio a'i bod yn bwysig cael bwrdd mawr i eistedd o'i amgylch.

- Wrth drafod **lleoliad** da ar gyfer cartref plant, roedd teimlo'n **ddiogel** ac osgoi ardaloedd â lefelau **troseddu** uchel yn flaenoriaeth allweddol i'n Comisiynwyr Ifanc.
- Roeddent yn teimlo y dylai fod **cydbwysedd rhwng lleoliadau dinesig a gwledig**, roedd y rhai a oedd yn byw mewn dinasoedd yn poeni am fod yn ddiogel ac mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn siarad am deimlo'n ynysig. Roedd nifer ohonynt wedi byw mewn gwahanol fathau o leoliadau ac roedd yn amlwg ei bod yn well ganddynt gael cydbwysedd, er enghraifft, mewn tref neu gerllaw tref.
- Mae bod yn bell oddi wrth eu **hysgolion** a gorfod teithio am amser hir i fynd i'w hysgolion yn bryder i lawer o'n Comisiynwyr Ifanc, y mae rhai ohonynt yn teithio mwy nag awr un ffordd bob dydd.
- Mae **cysylltiadau trafnidiaeth da**, yn enwedig agosrwydd i gysylltiadau bws a thrên, yn ystyriaeth bwysig i'n Comisiynwyr Ifanc hŷn ac mae angen cysylltiadau o'r fath arnynt er mwyn dod yn fwy annibynnol.

## Gair am Air

Yn olaf, mae'r adborth ysgrifenedig o'r sesiynau a gofnodwyd ar y taflenni 'cartref' enghreifftiol i'w weld isod.

| Beth wnaethom ei ofyn i'n Comisiynwyr Ifanc | Beth wnaethant ei ddweud wrthym |
|---|---|
| Beth sy'n gwneud i dŷ deimlo fel cartref. | *"Lle diogel, lleoliad diogel, camerâu diogelwch"*<br>*"Bwyd da a digon o fwyd".*<br>*"Staff caredig, cyfeillgar a synhwyrol"*<br>*"Dim staff sy'n cam-drin, dim corneli drwg, dim cloi pobl i mewn, mae angen gallu gweld y byd tu allan, tegwch, rhyddid a chofio ein hawliau"*<br>*"Cyfarfodydd cymunedol, gofyn i bawb beth maen nhw ei eisiau a gweithgareddau".*<br>*"Does dim hawl gennym gael anifeiliaid anwes, ond mae anifeiliaid anwes yn gwneud i dŷ deimlo'n gartrefol"*<br>*"Dydw i ddim am fyw gyda phobl sy'n gweiddi neu fe fydda' i'n gweiddi'n ôl".* |
| Beth yw maint cartref da a faint o blant ddylai fyw gyda'i gilydd. | *"Mae cartrefi llai o faint yn dysgu plant sut i rannu a pharchu ei gilydd, dydy hyn ddim yn digwydd pan fyddan nhw'n byw ar eu pen eu hunain".*<br>*"Mae plant sy'n byw ar eu pen eu hunain yn unig".*<br>*"Tri pherson ifanc, os bydd mwy bydd gormod o sŵn"*<br>*"Os bydd mwy na phedwar, yna bydd angen i bob un gael ei ystafell ymolchi ei hun er mwyn cael preifatrwydd pan fydd yn sâl neu pan fydd ganddo anghenion meddygol".*<br>*"Tri pherson yn y cartref".*<br>*"Dim mwy na dau neu dri pherson ifanc"*<br>*"Mae'n dibynnu beth mae'r unigolyn yn gyfarwydd ag ef, mae gan rai pobl deuluoedd mawr".*<br>*"Dylai fod ganddyn nhw ddiddordebau tebyg a dylen nhw fod yn debyg o ran oedran".*<br>*"Dydy brodyr a chwiorydd cyffredin ddim yr un peth".*<br>*"Mewn cartref mawr, rydych chi bob amser yn teimlo eich bod yn cael eich gadael allan".*<br>*"Mae dau i bedwar o bobl yn dda, mae fel cartref cyffredin, gallan nhw ganolbwyntio arnon ni, treulio mwy o amser gyda phob person ac mae llai o lestri i'w golchi a gwaith glanhau"*<br>*"Llai na phedwar, efallai y byddan nhw'n cyd-dynnu'n well am fod llai o bobl. Os mai dim ond un sydd, mae gormod o sylw"*<br>*"Dim mwy na dau neu bydd yn ormod".*<br>*" Tŷ braf o faint cyffredin, mae pedwar o bobl yn ddigon".*<br>*"Gormod o bobl - pryder"* |
| Sut ddylai cartref da edrych ar y tu mewn, gan gynnwys | ***Ardaloedd cymunedol:***<br>*"Swyddfeydd bach, dim ond cwpwrdd o dan y grisiau sydd ei angen, llai o le i bobl".* |

| | |
|---|---|
| eu barn ar yr ystafelloedd unigol a'r ardaloedd a rennir. | *"Mae swyddfeydd mawr yn cymryd gormod o le, mae angen swyddfa i gadw pethau'n breifat ond gallai fod llai o bapur".*<br>*"Does dim hawl gennym fynd i mewn i'r swyddfa, mae'n breifat".*<br>*"Mae angen lle arnyn nhw (y gofalwyr) ac mae ein lle ni yn breifat".*<br>*"Dylai'r staff fynd i'r ystafell fyw yn amlach, nid y swyddfa".*<br>*"Ystafell neu stydi fach, fel nad yw popeth yn mynd yn ormod i ni".*<br>*"Ystafell dawel sy'n llai o faint"*<br>***Ystafelloedd ymolchi:***<br>*"Byddai'n well gen i gael ystafell ymolchi ensuite ond dylai fod o leiaf ddwy ystafell ymolchi, yn dibynnu ar y maint".*<br>*"Mae toiledau'n bwysig, mae angen mwy nag un".*<br>***Ystafelloedd gwely:***<br>*"Yr ystafell wely sydd bwysicaf am ei bod yn fwy clyd".*<br>*"Mae ystafelloedd gwely yn breifat, peidiwch ag amharu".*<br>*"Ystafelloedd gwely er mwyn cael preifatrwydd"*<br>*"Fy lle i"*<br>*"Gwnes i ddewis gwely bws fel y gallwn yrru i Lundain".*<br>***Cegin/bwyta:***<br>*"Bwrdd mawr fel y gall pawb sgwrsio a choginio".*<br>*"Cyn belled â bod popeth yno a'i bod yn hawdd dod o hyd i bopeth".*<br>*"Digon o le i bawb sy'n byw yno a lle i goginio".*<br>*"Bwrdd i eistedd o'i amgylch a bwyta, neu ystafell fwyta".*<br>*"Does dim angen i'r gegin fod yn rhy fawr, mae'n braf cael ystafell fwyta".*<br><br>*"Mae dewis beth sydd yn y tŷ yn bwysig, cymryd rhan, helpu gyda'r paentio, dewis lluniau a phosteri"* |
| Sut ddylai cartref da edrych ar y tu allan, gan gynnwys y gerddi a'r ardaloedd awyr agored. | *"Fel castell 😊, na, dylai edrych fel tŷ cyffredin ac nid fel bloc o fflatiau".*<br>*"Dim arwyddion yn dweud "CARTREF GOFAL" na rheiliau o'i amgylch"*<br>*"Taclus, ardal laswelltog ddymunol, lle i chwarae"*<br>*"Goleuadau bach disglair ('fairy lights')"*<br>*"Pan fydd angen llonydd arnaf, mae'n well gen i fynd allan i'r ardd".*<br>*"Mae ardal awyr agored fawr yn bwysig, rwy'n hoffi bod y tu allan"* |
| Ble dylid lleoli cartref da a beth ddylai fod ar gael yn y gymuned gyfagos. | *"Lleoedd diogel, dim Manceinion, dim Lerpwl, osgoi dinasoedd mawr, rhaid bod y cyfraddau troseddu yn isel".*<br>*"Dim chavs, dim trais, dim trywanu, dim tanau bwriadol"*<br>*"Bod o gwmpas pobl garedig"*<br>*"Pobl garedig, mae'n rhaid iddyn nhw fod yn gyfeillgar".*<br>*"Dim ffermwyr dig, mae'n swnllyd byw wrth ymyl fferm".*<br>*"Bysiau a threnau da i helpu annibyniaeth."*<br>*"Lleoedd bwyd ac adloniant lleol ond nid McDonalds am ei fod yn gwneud drwg i'ch iechyd."*<br>*"Ar ffordd dawel, braf, o fewn pellter cerdded i bethau"*<br>*"Mae dinasoedd yn ormod"* |

| | |
|---|---|
| | *"Mae bod yn agos i'ch ysgol, eich teulu a'ch ffrindiau yn gwneud i chi deimlo'n ddiogel".*<br>*"Mae cyffuriau a gweld pobl yn cymryd cyffuriau yn anniogel, dim cyffuriau o gwmpas plant".*<br>*"(Dim) gormod o bobl, cymdogion treisgar yn dadlau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol".*<br>*"Rydyn ni gyd yn byw tuag awr i ffwrdd o'r ysgol, byddai'n braf byw yn agosach".*<br>*"Mae bod yn agos i'r ysgol yn bwysig iawn".*<br>*"Mae'n beth da cael gorsaf drenau o fewn pellter rhesymol".*<br>*"Mae cysylltiadau trên/bws yn bwysig ar gyfer annibyniaeth, yn enwedig ar gyfer mynd i'r coleg".*<br>*"Dim wrth ymyl traffordd nac mewn man gwledig"* |

**Hoffai'r Comisiynwyr Ifanc ddiolch i Arolygiaeth Gofal Cymru am ofyn iddynt helpu i ysgrifennu'r canllawiau newydd ac maent wedi gofyn am adborth ynghylch sut y caiff eu safbwyntiau eu cynnwys yn y ddogfen derfynol.**

